




**PECYN  
ADNODDAU  
CREADIGOL**



**cfw**

Cwmni'r Frân Wen  
Theatr sy'n herio, cyffroi ac ysbrydoli...



# CYFLWYNIAD

Yn dilyn llwyddiant y cynhyrchiad Cwprdd Dillad yn 2014, roeddem yn gweld bod y broses o ddyfeisio ar y cyd hefo ysgolion wedi bod yn ffynhonnell gyfoethog i ysbrydoli cynhyrchiad. Braf oedd cael datblygu syniadau'r disgyblion gyda'r tîm creadigol dros gyfnod o amser estynedig a hynny o fewn perthynas gytbwys.

Roeddem fel cwmni wedi sefydlu bod effaith cerddoriaeth arnom yn y broses o greu cynhyrchiadau theatrig yn allweddol yn y broses greadigol ond ein bwriad oedd ceisio dadansoddi sut yn union mae diffinio a mesur grym cerddoriaeth. Sut mae gwahaniaethu rhwng cerddoriaeth a sŵn ac oes modd sicrhau tawelwch pur? Roedd y darganfyddiad mai dim ond 42 munud oedd record yr amser hiraf i unigolyn allu dioddef yn yr unig siambr 'anechoic' cwbl dawl, sydd yn Arizona, yn arwyddocaol. O fewn y siambr caiff yr unigolyn ei orfoleddu gan synau organau ei gorff sy'n awgrymu nad oes modd cyrraedd stad o dawlwlch pur.

Wedi wythnos ymchwiliol gyda Iwan Charles a Leisa Mererid a disgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Llanfairpwll, daethpwyd i'r canlyniad mai perthynas cerddoriaeth, sŵn a thawelwch oedd yn ein sbarduno'n greadigol. O fewn dim, dechreuodd y disgyblion bersonoli yr elfennau ac roedd eu syniadau yn cynnig posibilidau theatrig yn syth. Roedd gwisgoedd a bydoedd y tri chymeriad yn priodoli hanfod eu nodweddion a daeth stori i'r amlwg sef dibyniaeth y tri ar ei gilydd.

Dilynwyd proses o ymgynghori hefo Ysgol Llanfairpwll, Ysgol Llaingoch ac Ysgol y Graig hefo'r tîm creadigol gan ddatblygu cymeriadau, sefyllfaodd ac arbrofion i ddarganfod hanfod Shabw'm. Fel pob proses greadigol, roedd hi'n fater o un cam ymlaen a dau yn ôl wrth i gymeriad Twrw, Smic a X ddatblygu'n uned deuluol ac i fyd Shabw'm ddod yn ymgais gan X i rannu ei phrofiadau o densiynau teuluol gyda'r gynulleidfa.

Roedd treialu'r cynhyrchiad yn anrhydedd a phleser pur gyda'r disgyblion, yn arbennig wrth iddyn nhw sylwi ar eu cyfraniad creadigol yn y cyfanwaith. Diolch o galon iddynt, eu hathrawon a'u staff cefnogol am fod mor barod i fentro'n greadigol ac i ymddiried eu syniadau ynddom.

Mae Shabw'm yn gosod sialens i gynulleidfa o bob oed i ddehongli'n theatraidd ac yn dathlu pŵer adnewyddol cerddoriaeth.

**Iola Ynyr**  
**CYFARWYDDWRAIG ARTISTIG**



# Y TÎM CREADIGOL



## CYFARWYDDWRAIG ARTISTIG

Iola Ynyr

## IS-GYFARWYDDWRAIG AC ACTORES

Gwennan Mair Jones

## ACTORION

Owain Llyr Edwards, Leisa Mererid

## CYFANSODDWR

Gruff ab Arwel

## CYNLLUNYDD SET A GWISGOEDD

Lois Prys

## RHEOLWR LLWYFAN

Meilir Aled Evans

## TECHNEGYDD

Morgan Huw Evans

## LLUNIAU

Geraint Thomas

## ADNODAU CREADIGOL

Malan Wilkinson

Lois Prys

Gruff ab Arwel

Iola Ynyr

Carl Russell Owen

Ffion Haf

Leisa Mererid

Owain Llyr Edwards

## CWMNI'R FRÂN WEN

Cyfarwyddwr Artistig: Iola Ynyr

Rheolwr Gweithredu: Nia Jones

Cyfarwyddwr Cyswllt: Ffion Haf

Swyddog Cyfranogi: Gwennan Mair Jones


Swyddog Marchnata ac Ymgysylltu: Malan Wilkinson

Swyddog Gweinyddol: Olwen Mai Williams

## DIOLCHIADAU

Staff a disgyblion Ysgol Llaingoch, Ysgol Llanfairpwll ac Ysgol y Graig.

Hoffai Cwmni'r Frân Wen gydnabod cefnogaeth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.





# DATBLYGIAD SHABŴM MEWN 10 CAM

## 1. Gofyn cwestiynau

Sut mae rhoi blas ar sŵn glaw?  
Teimlad i gnoc ar ddrws?  
Arogl i dipian cloc?  
Tymheredd i gerddoriaeth 'jazz'?  
Wyneb i ddistawrwydd?



## 2. Gwrando ar gerddoriaeth sy'n ysbrydoli

<https://shabwm.wordpress.com/2014/10/20/cerddoriaeth-a-synau-syn-ysbrydoli/>



## 3. Dyfeisio a chreu straeon

Y criw yn dechrau dyfeisio a chreu straeon yn Ysgol Llaingoch.



## 4. Creu cymeriadau

Wrth i'r gwaith dyfeisio barhau, fe wnaeth plant Ysgol Y Graig, Ysgol Llanfairpwll ac Ysgol Llaingoch greu gwaith Celf yn seiliedig ar dawelwch, sŵn a cherddoriaeth. Sut fydddech chi'n mynd ati i greu cymeriadau yn seiliedig ar dawelwch, sŵn a cherddoriaeth?




## 5. Creu ystafelloedd/ bydoedd

Yna, fe aeth y criw ati i greu ystafelloedd/bydoedd gwahanol. Roedden nhw'n meddwl am gymeriadau'r sioe (Twrw a Smic) ac yn creu gofodau unigryw iddynt. Roedden nhw'n canolbwyntio ar gyfuno lliwiau gwahanol, ar greu awyrgylch ac ar ddefnyddio delweddau sy'n cyfleu'r cymeriadau. Pa gymeriad sy'n byw yn yr ystafell hon tybed?




## 6. Creu modelau bychan

Mae Lois y cynllunydd wedi bod yn creu modelau bychan o gartrefi prif gymeriadau Shabŵm, Twrrw a Smic. Sut fydddech chi'n mynd ati i greu cartrefi i'r cymeriadau hyn? Tybed pa mor wahanol fyddai bydoedd Twrrw a Smic?



## 7. Datblygu arferion ei gymeriad

Mae Llyr sy'n actio cymeriad Twrrw wedi bod yn datblygu arferion ei gymeriad o ddydd i ddydd ac wedi bod yn arbrofi gyda synau gwahanol i gyd-fynd â'r arferion hynny. Sialens Leisa sy'n actio Smic oedd darganfod atgofion.





# DATBLYGIAD SHABŴM MEWN 10 CAM

## 8. Cydweithio

Trwr a Smic yn cychwyn eu taith o gydweithio. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau gymeriad/fyd gysylltu!




## 9. Set ac ymarfer

Y set yn cyrraedd a'r criw yn dechrau ymarfer.




## 10. Sain a chynllun goleuo

Y criw technegol yn paratoi sain a chynllun goleuo Shabŵm.



**TUDALEN  
NES A'  
GWEITHGAREDDAU  
AC YMARFERION**





# GWEITHGAREDD #1 CREU STORI



[www.youtube.com/watch?v=jd544pGoVfg&list=UUFnD0rm7vBP0-NWTnEjuHxQ](http://www.youtube.com/watch?v=jd544pGoVfg&list=UUFnD0rm7vBP0-NWTnEjuHxQ)

Yn y cynhyrchiad Shabŵm mae'r cymeriad Smic yn llunio delweddau ac yn creu ac adrodd stori am ferch fach. Mae Smic yn hoffi creu straeon. Gwylwch y clip uchod i glywed a gweld stori Smic.

1. Mae hi'n fore o wanwyn ac mae'r niwl yn codi'n araf.
2. Mae'r goedwig yn llawn adar bach yn canu. Uwchben, mae'r haul yn trio sbecian drwy'r canghennau.
3. Mae'r dail yn sibrwd yng nghlust y ferch fach "Dos, dos i chwilio ...." Mae hi'n dechrau rhedeg, yn gynt ac yn gynt. Mae hi'n methu stopio rhedeg. Mae hi'n mynd mor gyflym ma' hi bron a hedfan.
4. Mae hi'n rhedeg drwy'r coed yn rhedeg drwy'r rhedyn ac yn chwerthin.
5. Mae hi'n tynnu ei sgidiau a'i sanau ac yn rhoi ei thraed ar y pren. Mae'r pren yn llithrig ac mae ganddi ofn edrych i lawr, rhag ofn iddi syrthio.....
6. Yna, mae hi'n neidio i mewn i'r pwll du, i lawr o dan y dŵr.....
7. Mae hi'n agor ei llygaid ac mae pobman yn wyrdd, yn wyrdd!
8. Yna, mae na gwmwl du yn dod i guddio wyneb yr haul ac mae'r ferch yn dechrau crynu. Mae hi'n teimlo'n unig ac yn oer ond yn sydyn ...
9. Mae 'na dylluan fawr wen yn ymddangos uwchben – yn gwyllo'n dawel. Dwyt ti byth ar ben dy hun, mae'r byd yn gwyllo ac yn gwranddo.


Ewch ati i greu stori drwy lunio delweddau a chreu naratif. Gallwch ymestyn y weithgaredd drwy animeiddio eich stori gan ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol megis iMovie (Apple Mac) ac apiau megis **I Can Animate** (iPad).

# GWEITHGAREDD #2 CREU MODEL




## Fi Fach

Yn rhan o set Shabŵm, mae model o'r set ar raddfa o 1:20, ond mae hwn yn raddfa eitha' bach i weithio ynddo, felly dwi am ddangos ichi sut i greu model syml o chi eich hun mewn graddfa 1:10 ( 1cm yn y model yn hafal i 10cm mewn graddfa maint cywir).




Cam 1: Creu pren mesur yn y raddfa 'da ni am ddefnyddio, sef 1 i 10. Marciwch betryal 3cm x 21cm, ac yna marciwch linell i lawr canol y petryal.



Cam 2: Ar hyd y llinell ganol, rhowch farc bob centimetr a'u labelu o 1cm hyd at 20 cm i fyny ochr chwith y pren mesur.




Cam 3: Ar ochr dde y pren mesur, cyfrwch fesul 10, a'u marcio yn gyfochrog i'r rhifau ar y chwith, felly cychwyn efo 10 hyd at 200, gan ychwanegu "cm" ar ôl bob rhif.



Cam 4: Torrwch allan y pren mesur, ac ar yr ochr dde marciwch eich taldra. 167cm ydw i, felly mae fy marc i ychydig uwch na hanner ffordd rhwng 160cm a 170cm.




# GWEITHGAREDD #3 CREU SAIN



Cam 5: Rhowch eich pren mesur ar gardfwrdd a rhoi marc wrth "0" yng ngwaelod y pren mesur a'ch taldra chi yn y top.



Cam 6: Tynnwch lun ohonoch rhwng y ddau farc yma.



Cam 7: Lliwiwch y llun a'i dorri allan.



Cam 8: Torrwch allan driongl o'r cardfwrdd sydd dros ben, a gan ddefnyddio tap gludog, gosodwch o lawr canol y cerdyn, mae hyn yn galluogi i'ch model sefyll.

Wedi gorffen!- a dyma fi a fy "fi fach".  
Gobeithio y cewch hwyl gyda eich pren-mesur graddfa!!



Oeddech chi'n gwybod bod llawer o'r synau gwahanol yn Shabw'm yn cael eu gwneud gyda'r llais yn unig?


Defnyddiwch apiau fel **Voice Plus** (iPad) neu offer recordio a chyfrifiaduron, i newid sŵn y llais i swnio'n wahanol iawn!



[www.soundcloud.com/franwen/newidllaiscyfrifiadur](http://www.soundcloud.com/franwen/newidllaiscyfrifiadur)

1. Newid traw
2. Newid cyflymder
3. Ychwanegu atsain i wneud llais i swnio'n bell i ffwrdd
4. Chwarae'r llais am yn ôl

Mae peiriannau recordio yn ddefnyddiol iawn wrth greu darluniau sain.



[www.soundcloud.com/franwen/gosodhaenau](http://www.soundcloud.com/franwen/gosodhaenau)

Yn y clip yma, cewch glywed sut mae defnyddio peiriant recordio a chyfrifiadur er mwyn gosod haenau o synau ar ben ei gilydd.

Yn gyntaf, mae'r llais yn dynwared synau anifeiliaid – mwnci, eliffant a gwahanol adar.

Er mwyn gwneud y sŵn llew, mae'r llais yn recordio sŵn pesychu neu dagu. Wedyn mae'r sŵn yn cael ei arafu, ac mae'r traw a'r cyflymder yn mynd yn is. A dyna ni! Sŵn llew yn rhuo!

Ar ddiwedd y clip, cewch glywed yr holl synau gyda'i gilydd yn creu darlun sain o'r jyngl!

Felly, beth am i ni weld yr holl dechnegau yma'n cael eu defnyddio i droi sŵn llais yn sŵn hollol wahanol? Ceisiwch ddyfalu pa sŵn mae'r llais yn ceisio ei dynwared!



[www.soundcloud.com/franwen/llaisrhywbetharall](http://www.soundcloud.com/franwen/llaisrhywbetharall)

I wneud y sŵn yma, roedd y llais yn recordio gwahanol synau:

1. Gwneud sŵn cras efo'r llais a'i ailadrodd
2. Amrywio'r sŵn a dynwared peiriant torri coed
3. Copio sŵn rhif dau a newid y traw yn uwch gyda chyfrifiadur
4. Gwneud yr un peth gydag ychydig o synau eraill.
5. Recordio chiwbanu 7 gwaith.
6. Yna eu chwarae i gyd yr un pryd!
7. Ac ar ôl rhoi popeth at ei gilydd mae'n swnio fel peiriant enfawr!



# YMARFERION I ANNOG DYCHYMYG A CHREADIGRUYDD

Dyma gyfres o ymarferion a syniadau y gall unrhyw un ddatblygu yn y dosbarth neu gyda cydweithwyr i annog creadigrwydd mewn addysg. Mae gan bawb y potensial i fod yn greadigol, ond iddynt fentro ac archwilio.

Dyma restr o egwyddorion sy'n cael eu defnyddio i hyrwyddo creadigrwydd:

- Newid trefn arferol
- Tynnu llun heb synnwyr
- Gwneud pethau heb reswm
- Byrfyfrio
- Dysgu sgil newydd
- Creu pethau newydd nid ail-adrodd
- Ymchwilio
- Gwneud camgymeriadau
- Bod yn agored i syniadau pobl eraill
- Gwrthod creu awyrgylch o ofn
- Rhyddid i fynegi barn
- Goddefgarwch
- Chwarae gyda syniadau
- Meithrin chwilfrydedd
- Cymryd risg
- Creu cynnwrf ac ysbrydoli
- Sicrhau llefydd i'r meddwl grwydro yn ymenyddol a chorfforol
- Gwarchod y broses greadigol



Clip fideo defnyddiol i'w ddefnyddio fel ysbrydoliaeth:  
[www.youtube.com/watch?v=YmwwrGV\\_aiE](http://www.youtube.com/watch?v=YmwwrGV_aiE)

Dyma gyfres o ymarferion i'w defnyddio yn y dosbarth i annog creadigrwydd ac ysbrydoli'r dychymyg:

## YMARFER 1

### Gwrando ar gerddoriaeth

Rhowch gerddoriaeth ymlaen yn y dosbarth, cerddoriaeth fflamenco Sbaeneg yn gweithio yn dda, mwyaf egsotig y gorau. Adroddwch y canlynol i'r disgyblion a gofyn iddynt ysgrifennu beth bynnag sydd yn dod i'w pennau...cofiwch nad oes dim byd yn anghywir.

Dychmygwch eich bod yn eistedd mewn sinema lle mae sgrin du yn llenwi gyda delweddau.

- Beth yw'r tirwedd o'ch blaen?
- Beth sydd o dan eich traed?
- Sut adeiladau sydd o'ch cwmpas?
- Beth yw'r arogleuon?
- Sut mae'r tywydd?
- Oes yna bobl eraill o'ch cwmpas?
- Trowch yn eich unfan ac amsugno'r olygfa.
- Pwy sy'n nesu?
- Beth maen nhw yn ei wisgo?
- Beth yw'r emosiwn sydd yn eu llygaid?
- Oes yna anifeiliaid i'w gweld?
- Beth sy'n cael ei ddweud wrthyhch?

Wedi i'r gerddoriaeth orffen rhowch funud i bawb gofnodi unrhyw fanylion pellach ac adrodd yn ôl.

## YMARFER 2

### Astudio darn o gelf

Dewiswch ddarn o gelf, er enghraifft gwaith Edgar Degas ac Edward Hopper.

Gofynnwch i bawb i edrych ar y llun ac awgrymwch fod angen gweithredu fel ditectif yn chwilio am y cliwiau manylaf posibl. Gall pawb ysgrifennu eu syniadau i lawr neu drafod, neu'r ddau.

- Sut awyrgylch sydd yn y caffi?
- Ydy'r ddau unigolyn yn adnabod ei gilydd?
- Oes yna berthynas rhyngddynt?
- Beth maen nhw'n ei weld?
- Sut synau sydd yn y caffi?
- Beth sydd i'w glywed tu allan?
- Pa ddigwyddiad arwyddocaol sydd ar fin digwydd?
- Pwy fydd yn dod i mewn i'r caffi i newid y sefyllfa'n allweddol?



L'Asinthe – Edgar Degas.

## YMARFER 3

### Blociau Stori

Ewch ati i greu blociau 3D amrywiol. Gall y blociau hyn gynrychioli emosiwn, tywydd, gwrthrychau, lleoliad, gweithred, cymeriad i enwi ond rhai.

Mae'r chwe ochr i bob bloc yn cynrychioli emosiwn / lleoliad gwahanol.

Er enghraifft:

*Bloc emosiwn:* hapus, trist, ofnus, nerfus, cynhyrfus, chwilfrydig

*Bloc lleoliadau:* ysgol, coedwig, car, gwely, traeth, goleudy

Taflwch y blociau i ddewis elfennau i'r stori a lluniwch gysylltiad rhyngddynt.

Gallwch ymestyn y dasg drwy ffurfio cysylltiad rhwng straeon gwahanol.



# YMAERFERION I ANNOG DYCHYMYG A CHREADIGRWYDD

## YMARFER 4

Casglwch nifer o bropiau diddorol sydd heb gyswllt amlwg. Anogwch y disgyblion i osod y propiau mewn modd difyr sy'n creu chwilfrydedd. Wedi creu 'byd', gallwch greu cymeriad sy'n byw ynddo.

- Lle mae'r gwrthrychau yn bodoli e.e. ystafell yn y cartref?
- Beth sydd i'w weld drwy'r ffenestr?
- Sut berson sy'n byw yn y lleoliad?
- Pwy oedd y person olaf i alw?
- Beth sydd i'w glywed yn yr ystafell?
- Pa arogleuon sydd yn yr ystafell?
- Beth yw tymheredd yr ystafell?

Wedi creu **byd**, gallwch greu cymeriad sy'n byw ynddo. Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau isod i sbarduno'r disgyblion i ymchwilio'n ddyfnach i'w cymeriad.

- Beth ydy enw'r cymeriad?
- Lle mae'n byw?
- Sut gartref sydd ganddo?
- Lle cafodd ei fagu?
- Pwy ydy teulu'r cymeriad?
- Faint yw ei oed?
- Pwy yw ei ffrind gorau?
- Beth yw atgof cyntaf y cymeriad?
- Beth yw gobaith mwyaf y cymeriad?
- Beth sy'n ei ddychryn?
- Beth yw ei drysor?
- Yn lle mae'r cymeriad hapusaf?
- Beth ydy ei hoff liw a pham?
- Beth fyddai diwrnod delfrydol y cymeriad?
- Beth ydy hoff bryd bwyd y cymeriad?
- Beth ydy hoff dywydd y cymeriad?
- Beth ydy hoff gerddoriaeth y cymeriad?

### Llenwi byd Twrw, Smic ac X

Roedd casglu lluniau o fydoedd Twrw a Smic yn fodd o symbylu golygfeydd a chreu awyrgylch ac yn help i gychwyn gwaith byrfyfyr.

Awgrymwch fod y disgyblion yn mynd i'r lleoliadau ac yn defnyddio eu synhwyrau i ddod a'r lle yn fyw.

Gall y disgyblion ffurfio siâp y cymeriadau yn y lluniau a dychmygu symud yn ôl neu ymlaen mewn amser yn araf. Gellir defnyddio cerddoriaeth i greu awyrgylch neu holi ar ffurf 'cadair boeth' i ddod i adnabod y cymeriad e.e. Sut wyt ti'n teimlo ar hyn o bryd? Beth wyt ti'n ei weld? Ers faint o amser wyt ti yma? Beth ges di i'w fwyta diwethaf? Pwy fydd yn dod atat ti i dy weld? Pa adeg o'r flwyddyn ydy hi?

## YMARFER 5


### Cadair Boeth

Gall dosbarth greu cymeriad ac awgrymu hanes iddo. Ewch ati i ddewis actor (disgybl, athro neu chymhorthydd) a gofynnwch gwestiynau iddo/iddi. Rhaid i'r actor fod yn awgrymog ac annog cwestiynau treiddgar.

Mwynhewch yr archwilio a'r mentro a chofiwch nad oes dim yn anghywir.

# GEIRFA

Sŵn	.....	Sound
Dim problem	.....	No problem
Cyngerdd	.....	Concert
Tocyn	.....	Ticket
Dafad	.....	Sheep
Prynhawn 'ma	.....	This afternoon
Enfys	.....	Rainbow
Adar	.....	Birds
Cadair	.....	Chair
Fferm	.....	Farm
Canu	.....	Sing
Dail	.....	Leaves
Rhedeg	.....	Run
Chwerthin	.....	Laugh
Pren	.....	Wood
Disgyn	.....	Fall
Neidio	.....	Jump
Oer	.....	Cold
Gwyrdd	.....	Green
Sêr	.....	Stars
Hapus	.....	Happy
Tyrd!	.....	Come on!
Gwasanaeth	.....	Service
Sawl math	.....	Many types
Stori	.....	Story
Plentyn	.....	Child
Mwynhau	.....	Enjoy
Tyrd yma	.....	Come here
Tudalen olaf	.....	Last page
Gwrach	.....	Witch
Coeden Nadolig	.....	Christmas tree
Awyr iach	.....	Fresh air
Cwmni	.....	Company
Stori dda	.....	Good story
Neges	.....	Message
Y diwedd	.....	The end
Fi	.....	Me
Gwrando	.....	Listen
Rhedeg i Ffwrdd	.....	Run away
Tylluan Wen	.....	Barn owl





# DOD I ADNABOD...



## Gruff ab Arwel CYFANSODDWR



### Sut fyddet ti'n disgrifio'r sioe mewn ychydig eiriau?

Mae'n sioe sy'n trio cyflwyno cerddoriaeth a'r berthynas rhwng cerddoriaeth, sŵn a thawelwch i blant mewn ffordd maen nhw'n gallu uniaethu ag o. Rydan ni'n cyflwyno syniadau mwy haniaethol a chreadigol i blant ac yn trio gwneud rhywbeth maen nhw'n ei fwynhau.

### Sut nes di fynd ati i gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer Shabŵm?

Gan mod i wedi bod yn rhan o'r broses o greu o'r cychwyn, mae'n wahanol i'r arfer, lle faswn i'n 'sgwennu miwsig ar ôl i'r sioe gael ei chwblhau. Gan bod hi'n sioe am fiwsig a sŵn, roedd o'n gwneud synnwyr mod i'n cyfansoddi tra roedd y cynhyrchiad yn cael ei ddatblygu. Mae hyn wedi fy ngwneud yn lot fwy ymwybodol o rôl miwsig a sŵn yn y sioe. Mae'n fwy na rhywbeth i'w gael yn y cefndir yn unig – mae'n gyrru'r plot yn ei flaen.

### Beth sydd wedi dy ysbrydoli yn ystod y broses greu?

'Dw i'n ymwybodol iawn bod modd defnyddio miwsig a sŵn fel rhywbeth sy'n fwy na rhywbeth ti'n glywed yn unig. Rydan ni'n defnyddio cerddoriaeth fel cymeriad ychwanegol, ti'n dod i sylwi effaith be fedri di neud hefo miwsig a sŵn. Dw i'n ddipyn mwy gofalus o be 'dw i'n neud a ma' na fwy o feddwl yn mynd i mewn i pam bod sŵn mewn rhyw le yn benodol. Achos bod y gerddoriaeth yn rhan o'r plot bron, mae'n bwysig bod y gerddoriaeth yn gallu cyfleu pethau byddai sgript fel arfer yn ei gyfleu.

### Pa gyfansoddwyr sy'n creu argraff arnat ti a pham?

'Da ni wedi bod yn trafod ffilmiau fel The Last Frontier a Bjork, Dancer in the Dark. Ma' hwnna am berson sy'n colli ei golwg a sut mae sŵn yn rhan o'i bywyd hi er bod hi methu gweld. Mae hi'n clywed synau mae pawb arall yn glywed – ond mwy fel miwsig. Roedd hwnna'n eitha pwysig i mi o'r dechra' – bod posib gwranddo ar gerddoriaeth fel sŵn ac mae 'na bosibilrwydd gwranddo ar sŵn fel miwsig hefyd.

### Beth wyt ti'n ei fwynhau fwyaf am y broses ddyfeisio?

Mae wedi bod yn hwyl! Mae pawb efo'i gilydd – wedi ymlacio. Does neb ofn cyflwyno syniadau newydd. Mae 'na lot o gydweithio wedi bod ar y cynhyrchiad. Mae wedi bod yn 'change' gweithio efo pobol ar ryw beth sy'n fwy na jest miwsig.

### Sut brofiad ydy gweithio'n greadigol gyda'r ysgolion?

Grêt! Mae o wedi bod yn agoriad llygad. Pan mae'r plant yn yr ystâd feddwl iawn, maen nhw'n dweud petha' fwy creadigol a boncyrs na fedrwn ni feddwl amdano.

### Petaet yn cael un dymuniad yn y byd – beth fyddai'r dymuniad hwnnw?

Mae'n siŵr y buaswn i'n trio gwneud rhywbeth nobl fel datrys rhyfeloedd neu lwgu. Ond, mae'n siŵr faswn i'n landio fyny yn trio gallu hedfan neu rhywbeth!

### Faint mae dychymyg plant wedi ychwanegu at y gerddoriaeth?

Dipyn go lew. Roedden ni'n gofyn iddyn nhw be fasa'n nhw'n licio'i weld a'i glywed yn y sioe. Does gen i ddim plant – ella mod i'n dueddol o feddwl am beth mae plant eisiau ei glywed 'chydig bach yn simplistig. Pan maen nhw'n dweud wrthot ti go iawn, mae'n braf gweld y pethe maen nhw'n ystyried – pethe ti ddim yn disgwyl yn aml.

### Ydy'r gerddoriaeth wedi newid lot yn ystod y cyfnod dyfeisio?

Do, 'dw i'n meddwl. Wrth drafod mwy hefo'r plant, dw i wedi rhoi mwy o ymddiriedaeth ynddyn nhw. Gobeithio bod o reit wahanol i fiwsig plant fel arfer. Gobeithio fydden nhw'n licio fo! Fydd hi'n braf gweld a chlywed y cynhyrchiad yn ei gyfanrwydd.







# Gwennan Mair Jones

## ACTORES AC IS-GYFARWYDDWRAIG



### Fedri di ddweud rhywbeth wrthym ni am dy gymeriad di yn Shabŵm?

'Dw i'n chwarae merch fach tua 10 oed sydd yn byw efo'i mam a'i thad. Mae'n licio chwarae ar ei phen ei hun. Dydi hi ddim yn cael llawer o sylw gan ei mam a'i thad, mae'n sefyllfa eitha' drist a dweud y gwir.

### Sut fyddet ti'n disgrifio'r sioe mewn ychydig eiriau?

Mae'n sioe eithaf abstract. Mae'r stori yn eithaf syml, ond yn creu neges bwysig. Da ni'n defnyddio stori go iawn, teulu i edrych ar bŵer cerddoriaeth.

### Sut aethoch chi ati i greu'r sioe?

Mae'n anhygoel. Rydan ni wedi cael rhyddid mawr. Rydan ni wedi bod yn eithaf rhydd ers y tair wythnos diwethaf yma – rydan ni wedi cael dyfeisio petha' eithaf 'wacky', eithaf newydd a reit arbrol. Rydan ni wedi bod yn trio edrych ar y ddau fyd – bydoedd Twrw a Smic. Roedden ni angen llinyn i gysylltu'r ddau gymeriad – dyna sut daeth fy nghymeriad i i mewn. Mae wedi bod yn broses anhygoel o ddifyr. 'Da ni newydd gael y set i mewn heddiw hefyd sy'n gyffrous.

### Beth wyt ti'n ei fwynhau fwyaf am y broses ddyfeisio?

Cael bod yn rhydd i feddwl tu allan i'r bocs, dw i'n meddwl. Mae wedi bod yn broses ddiddorol iawn sut mae pobol yn meddwl am bethau'n wahanol ond, rhywsut, rydan ni wedi gallu cysylltu popeth gyda'i gilydd. 'Dw i wedi mwynhau gweithio mewn cynhyrchiad fel hyn sy'n hollol wahanol i gynhyrchiad sydd â sgrïpt llawn wedi'i ysgrifennu'n barod. Dw i'n mwynhau cael creu fy hun, mynd dan groen pethe' yn lle bod pethe'n arwynebol. Mae'n ddyfn iawn.

### Sut brofiad ydy rhannu llwyfan gyda Llyr a Leisa?

Mae'n brofiad anhygoel cael Llyr a Leisa fel mam a thad i fi, maen nhw wedi bod yna andros o gefnogol.

### Sut brofiad ydy cydweithio gydag ysgolion lleol ar ddatblygu'r cynhyrchiad?

Mae wedi bod yn ddifyr iawn gweithio gyda'r ysgolion. Rydan ni wedi bod yn gweithio gyda thair ysgol i gyd. Mae ymateb y plant wedi bod yn anhygoel – y ffordd maen nhw wedi ymateb i gerddoriaeth, y ffordd maen nhw wedi ymateb i ni fel unigolion hefyd. Mae'n brofiad pwerus. Dw i'n gwneud un gweithdy hefo nhw lle maen nhw'i gyd yn gorwedd ar lawr yn gwrando ar ddarn o gerddoriaeth. Dw i'm yn meddwl bod plant yn cael gwneud hyn dyddia' yma llawer. Ymlacio am 'chydig bach. Mae hynny wedi bod yn ddiddorol – eu gweld nhw'n gorwedd i lawr am tua chwarter awr, 'chydig fel yoga! Maen nhw'n meddalu 'chydig bach wedyn i feddwl yn fwy agored. Mae wedi bod yn ddiddorol iawn trio gwthio'r ffiniau celfyddydol... fydd o'n braf cael mynd â pherfformiad cyfan efo syniadau'r plant i'r ysgolion.

### Faint mae dychymyg plant wedi ychwanegu at y gwaith?

Rydan ni wedi penderfynu bod cerddoriaeth llawer mwy pwerus fel cerddoriaeth a ddim geiriau. Dyna gig y peth, bod cerddoriaeth yn gallu mynd â thi i lefydd gwahanol ac mae dy dychymyg di'n gallu mynd efo neu'n erbyn y gerddoriaeth. Dw i'n meddwl yn gyffredinol bod plant yn gweld hynny yn fwy na ni. Dw i'n meddwl bod dychymyg plant yn gallu mynd i lefydd mor ddiddorol. Wnaethon ni lawer o sesiynau lle roedden ni'n darllen storiâu a'r plant yn dod i fyny efo straeon eu hunain – jest rhoi'r rhyddid yna i'r plant fod yn hollol greadigol, hyd yn oed os ydi'n stori wirion sydd ddim yn gwneud synnwyr. Mae'r sioe wedi ei selio ar y ffaith bod ti'n medru bod yn agored i syniadau newydd. Syniadau'r plant sydd wedi llywio'r daith greadigol.

### Pwy yw dy hoff actor a pham?

Benedict Cumberbatch. Mae'n actor mor ddwys a chlyfar. Hollol dros ben llestri – ond rwy'n goelio fo hefyd – mae hynny'n braf i wyllo.

### Petaet yn cael un dymuniad yn y byd – beth fyddai'r dymuniad hwnnw?

Bod pawb yn y byd yn cael hapusrwydd!

### Ydy'r stori wedi newid lot yn ystod y broses ddyfeisio?

Dyw'r stori heb newid lot ond mae wedi datblygu. Fel bob cyfnod ymarfer, ymchwil, ti'n darganfod pethau newydd. Ti'n cael dy ysbrydoli gan bethau newydd. Wrth fynd i'r ysgolion am yr eil dro, wnaeth pethau newid eto. Mae ein dealltwriaeth ni fel cynhyrchwyr ac actorion wedi newid hefyd. O ran y stori, da' ni wedi defnyddio stori go iawn, stori i gyfleu pŵer cerddoriaeth.

### Sut brofiad yw Is-gyfarwyddo'r prosiect?

Mae wedi bod yn broses ddiddorol iawn. Nes i ddechrau drwy fod yn Is-gyfarwyddwr a hanner ffordd drwodd, dw i wedi newid i fod yn actor. Mae hynny wedi newid y ffordd dw i'n gweld pethau. Rŵan – dw i yn y sioe yn hytrach na mod i'n edrych yn wrthrychol ar y gwaith. Mewn ffordd, dw i wedi cael y ddau brofiad mewn un prosiect sy'n anhygoel. Mae wedi bod yn broses gwych gweithio mor agos gyda lola a dysgu'r ffordd mae hi'n cyfarwyddo pethau.







## Leisa Mererid

### ACTORES



#### Fedri di ddweud rhywbeth wrthym ni am dy gymeriad di yn Shabw̄m?

Mae hi'n gymeriad sydd wrth ei bodd efo straeon. Dyna ydy rhan fwyaf ei bywyd hi. Mae ei bywyd yn llawn o atgofion ac mae hi wrthi hefyd yn trio plethu stori ei bywyd i greu'r llyfr perffaith. Mae hi'n trio casglu'r holl atgofion at ei gilydd i greu rhywbeth newydd.

#### Sut fyddet ti'n disgrifio'r sioe mewn ychydig eiriau?

Gwead o wahanol ddulliau yn trio priodi tawelwch, twrw, sŵn a cherddoriaeth.

#### Sut aethoch chi ati i greu'r sioe?

Wnaethon ni ddechra' hefo dau gymeriad eithaf pendant, Twrrw a Smic ac mae hwnnw wedi datblygu drwy weithio hefo ysgolion lleol. Roedden ni'n holi'r plant, be mae Twrrw a sŵn yn gyfleu iddyn nhw – be mae distawrwydd yn gyfleu iddyn nhw a drwy'r adwaith gawsom ganddyn nhw, ddaru ni ddechrau creu cymeriadau. Ers hynny, mae'r cynhyrchiad wedi newid dipyn – mae gynno ni drydydd cymeriad hefyd rŵan. Dyna sut aethon ni ati i ddechrau, efo dau gymeriad pendant. 'Da ni hefyd wedi bod yn byrfyfyrion ac wedi bod yn agored iawn yn chwarae efo bob math o wahanol bethe. Mae Gruff yn gweithio hefo ni hefyd ac yn gweithio ar wahanol fathau o synau a cherddoriaeth.

#### Beth wyt ti'n ei fwynhau fwyaf am y broses ddyfeisio?

'Dw i wrth fy modd yn cael y rhyddid rydan ni'n ei gael yn Frân Wen i drïo unrhyw beth – y rhyddid i chwarae, i drïo ac i fethu ac i drïo eto, mae hwnnw'n beth eitha' prin dw i'n meddwl. Ond, rŵan, ti'n dechra' teimlo ei bod hi'n amser i ddechrau rhoi pethe' at ei gilydd a chael mwy o strwythur. Ond, rydan ni eisïau cadw'r un teimlad o chwarae a'r rhyddid sydd 'na pan 'da ni'n cael byrfyfyrion. Chwynnu 'da ni eisïau wneud rŵan.

#### Sut brofiad ydy cydweithio gydag ysgolion lleol ar ddatblygu'r cynhyrchiad?

Grêt! Mae'n lyfli achos fedrwn ni gael y syniadau fwyaf gwyb, dwys neu doniol yn yr ystafell ymarfer ond nes ti'n mynd a fo allan i ysgolion ti ddim yn gwybod sut adwaith ti'n mynd i gael. Hefyd, efo defnyddio iaith, rydan ni wedi sylweddoli ella bod ein iaith ni 'chydig bach yn rhy anodd i'r ysgolion ddeall. Be sy'n ddifyr ydy 'da ni ddim wedi gorfod symleiddio o gwbl o ran cynnwys achos a deud y gwir maen nhw wedi ein synnu ni ar yr ochr orau. Maen nhw'n gael o, er bod ein perfformiad ni'n 'chydig bach fwy abstract na naturiolaid, maen nhw wedi'i ddeall o. Mae hynny wedi bod yn ffantastig! Mae'r plant llawn dychymyg ac yn fodlon mynd efo ti ar daith – mae hynny wedi rhoi ffydd mawr i ni yn y broses greadigol.



#### Sut brofiad ydy rhannu llwyfan gyda Llyr a Gwennan?

Grêt! Dw i erioed wedi gweithio hefo'r un o'r ddau o'r blaen felly mae'n brofiad newydd. Hefyd, o fynd yn y dechrau o weithio hefo jest dau ohonom ni, Twrrw a Smic – i rŵan gael y trydydd elfen i mewn – mae o wedi newid y ddeinameg ar y llwyfan. Mae'n grêt cael rhywun arall i fownsio oddi arno, a rhywun iau hefyd, mae hynny'n dod a rhywbeth newydd i'r cynhyrchiad. 'Dw i'n licio gweithio mewn odrif am ryw reswm. Mae dau rhy daclus 'dw i'n teimlo weithia. Mae gynnon ni'r elfen gerddorol hefyd sy'n gymeriad arall yno'i hun mewn ffordd, felly allet ti ddweud bod 'na bedwar cymeriad. Y gerddoriaeth sy'n gweu'r cymeriadau hefo'i gilydd dw i'n meddwl.

#### Faint mae dychymyg plant wedi ychwanegu at y gwaith?

Llwyth, yn hynny o beth. Mae wedi rhoi'r hyder i ni fel cwmni i benderfynu does dim angen dyfrio be da ni'n neud. Mae'r plant yn medru neidio yn eu dychymyg. Mae wedi rhoi mwy o ryddid i ni chwarae os rhywbeth ac wedi profi bod 'na bosibiliadau di-ben draw i be 'da ni'n wneud achos mae o'n bwnc eang ofnadwy.

#### Ydy'r stori wedi newid lot yn ystod y broses ddyfeisio?

Ydy, mae o! Mae gynnon ni drydydd cymeriad wedi ymuno yn annisgwyl ond yn hyfryd. Mae o'n bendant wedi newid y stori. Mae wedi ychwanegu haen ar ben haen ar ben haen. Be sy'n grêt am hynny ydy, pan ti'n dod i flocio'r perfformiad, mae gen ti'r sylfaen gre' yna yno'n barod. Mae wedi newid y ddeinameg yn bendant a'r llinell stori wedi newid mymryn ond yn ei hanfod yr un peth ydy hi, jest bod gynnon ni fwy o bosibiliadau chwarae efo'r trydydd cymeriad.

#### Pwy yw dy hoff actor a pham?

Mae'n newid drwy'r amser. Dw i newydd fod yn gwylïo Dancer in the Dark efo Björk yn canu ac yn actio'r prif gymeriad ynddi. Mae hi jest yn anfarwol, ma' hi mor gynnil, mae'n ffilm fendigedig ac yn ofnadwy'r run pryd. Ond, i mi, mae hi yn y rhan yna yn un o'r pethe gore dw i wedi'i weld ar lwyfan a sgrin, ma' hi'n wych!

#### Petaet yn cael un dymuniad yn y byd – beth fyddai'r dymuniad hwnnw?

Cael gwared o dlodi drwy'r byd i gyd. Mae'n rhywbeth 'sa ni wedi gallu gwneud sawl gwaith drosodd 'sa gynnon ni fyd cyflawn. Dyna fasa'n fy nymuniad i.





## Owain Llyr Edwards

### ACTOR



#### Fedri di ddweud rhywbeth wrthym ni am dy gymeriad di yn Shabŵm?

'Dw i'n chwarae cymeriad o'r enw Twrw. Mae Twrw yn dueddol o fyw yn ei fyd bach ei hun yn gwneud petha' ei hun. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae sŵn a synau a chymysgedd o wahanol synau yn bwysig ym mywyd Twrw.

#### Sut fyddet ti'n disgrifio'r sioe mewn ychydig eiriau?

Mewn ychydig eiriau, yn sioe Shabŵm bydd rhywun yn mynd ar daith lle mae synau a cherddoriaeth ac effaith y pethau hynny yn bwysig iawn. Mi fydd hi'n daith gyffrous iawn. Mi fyddwn ni'n defnyddio llawer o synhwyrau – ddim dim ond sain ac ati. Cyffrous, mewn un gair.

#### Sut aethoch chi ati i greu'r sioe?

O'r cychwyn cyntaf, rydan ni wedi archwilio pob mathau o bethau – mae wedi bod yn gyfnod rhydd iawn o archwilio sawl trywydd, sawl stori a sawl agwedd ar bethau'n ymwneud â sain, distawrwydd ac emosiwn. Rydan ni wedi archwilio a chwarae a gobeithio bydd y cyfanwaith ar y diwedd yn dangos bod ni wedi mynd ati i chwarae lot.

#### Beth wyt ti'n ei fwynhau fwyaf am y broses ddyfeisio?

Mae'n braf cael cyfle – cyfle prin iawn i chwarae ac archwilio. 'Dw i hefyd wrth fy modd yn cydweithio efo pobol wahanol. Rydan ni'n griw da yn fan hyn – mae gynnon ni Lois yn gwneud y gwisgoedd a Gruff yn gwneud y sain. 'Da ni'n gyd yn dod â rhywbeth gwahanol i'r broses greu. Leisa, finna' a Gwennan yn actorion. Hefo'n gilydd, mae na lot o syniadau gwahanol – falle petha' faswn i ddim yn meddwl amdanynt fy hun. Felly, 'dw i'n mwynhau'r agwedd o gydweithio â phobl greadigol.

#### Sut brofiad ydy cydweithio gydag ysgolion lleol ar ddatblygu'r cynhyrchiad?

Mae cydweithio gyda'r ysgolion wedi bod yn wefr. Mae gen i bedwar o blant adref fy hun felly 'dw i wrth fy modd yn gweld effaith pethau creadigol ar blant. Mae hynny wedi bod yn fodd i fyw i mi. Cael cyfle i fynd i mewn i ysgolion a chlywed eu safbwynt a'u syniadau nhw. Yn aml iawn, mae gan blant syniadau llawer gwell na ni oedolion felly 'da ni'n cael bwydo oddi ar eu syniadau nhw. Gobeithio bydden nhw'n gweld ôl hynny yn y perfformiad a bydd o'n eu cyffroi nhw.



#### Sut brofiad ydy rhannu llwyfan gyda Llyr a Leisa?

Mae'n brofiad arbennig. Mae o fel taswn i'n nabod y ddwy ohonyn nhw ers blynyddoedd lawer. Mae'n grêt! Mae o fel cydweithio efo teulu. 'Da ni hefo'r un dyheadau 'dw i'n meddwl. 'Da ni yn canolbwyntio ar greu'r sioe orau bosibl ar gyfer y bobl ifanc sy'n mynd i ddod i'w gweld hi. Pan ma' pawb ar yr un trywydd, ar yr un llwybr yn trio dweud un stori, mae'n grêt.

#### Faint mae dychymyg plant wedi ychwanegu at y gwaith?

Does dim llawer o ran sgript, ond ydy, mae'r plant wedi cael dylanwad mawr iawn. Rydan ni wedi cael cyfle i chwarae efo syniadau'n hunain, cyflwyno'r syniadau i'r plant – gweithio ar y syniadau hynny ein hunain ac wedyn mynd nôl atyn nhw i ddangos y datblygiad. Mae hynny wedi bod yn gyffrous – gweld sut maen nhw'n ymateb i'w syniadau nhw wedi datblygu.

#### Pwy yw dy hoff actor a pham?

'Dw i'n mwynhau gweld pob math o actorion.

#### Tasa ti'n cael un dymuniad yn y byd – beth fyddai'r dymuniad hwnnw?

Bod pawb yn parchu ei gilydd.

#### Ydy'r llinyn storiol wedi newid lot yn ystod y broses ddyfeisio?

Ydi, mae o. Mae o wedi newid sawl gwaith. Rydan ni wedi mynd ar ôl lot o wahanol lwybrau a wedyn mae hynny wedi sbarduno rhywbeth newydd. Mae 'chydig fel arbrofi mewn labordy lle mae mynd ar ôl un canlyniad ti'n meddwl yn esgor ar betha' cwbl newydd a gwell. Mae wedi newid yn gyson a 'da ni'n dal i chwarae efo syniadau. Mae eistedd o amgylch bwrdd a'i drafod o yn un peth – ond mae'n beth gwahanol wedyn rhoi'r sioe ar ei thraed a gweithio arni yn gorfforol hefo lleisiau a sain. Mae'r sioe yn newid yn gyson, felly ffendio'r resipi perffaith erbyn y diwedd ydi'r gamp rwan.





## Lois Prys CYNLLUNYDD SET A GWISGOEDD

### Sut fyddet ti'n disgrifio sioe Shabŵm mewn ychydig eiriau?

Sioe am y cysylltiad rhwng distawrwydd, cerddoriaeth a twrw.

### Sut wyt ti wedi mynd i'r afael â chreu'r set a'r props? Beth oedd yn bwysig i ti ystyried wrth wneud hyn?

Nifer o elfennau! 'Dw i'n gorfod meddwl am sut mae'r plant am ymateb i be dw i'n mynd i roi o'u blaenau, hefyd pa mor hawdd ydy mynd i mewn ac allan o ysgolion ac wedyn sut mae'n ychwanegu at y stori 'da ni'n trio'i dweud.

### Beth sy'n dy ysbrydoli wrth i ti fynd ati i greu?

Mae'n gallu bod yn rhywbeth 'dw i 'di weld, teimlad, be 'da ni'n siarad amdano neu weithiau mae lliwiau yn fy ysbrydoli. Yn yr achos yma mae plant o'r ysgolion wedi f'ysbrydoli hefyd.

### Sut brofiad ydy cydweithio gydag ysgolion lleol ar ddatblygu'r cynhyrchiad?

Mae wedi bod yn brofiad gwych. Mae gan blant gymaint o syniadau gwahanol i ni fel oedolion. Maen nhw'n meddwl am bethau mewn ffyrdd gwahanol i ni. Mae wedi bod yn grêt gweithio hefo nhw ar wahanol lefelau o ran be maen nhw wedi dweud, o ran be maen nhw wedi tynnu llun ar bapur ac o ran eu hwyliau cyffredinol a'u syniadau.

### Dy hoff ran o'r broses greu a pam?

'Dw i'n licio cael fy nwylo yn fudur felly i mi, y rhan fwyaf difyr ydy'r rhan lle dw i'n dechrau gwneud pethau. Mae dyluniad yn amlwg yn rhan fawr o'r broses. Ond, pan dw i'n cael dechrau creu petha'n 3D, dyna'r rhan 'dw i'n ei fwynhau fwyaf.

### Petaet yn cael un dymuniad yn y byd – beth fyddai'r dymuniad hwnnw?

'Swm i wrth fy modd yn gallu siarad bob iaith yn y byd!

### Faint mae dychymyg plant wedi ychwanegu at ddyluniad y gofod a'r hyn ti'n greu?

'Da ni'n gobeithio bod 'na un peth eitha' hudol yn mynd i ddod ar ddiwedd y sioe sy'n syth o ddychymyg y plant. Wnâi ddim dweud gormod, i chi gael syrpreis bach! Ond, mae 'na un elfen ar ddiwedd y sioe sy'n llawn o ddychymyg y plant. Felly, gewch chi weld!



Mae'r Pecyn Adnoddau yn rhoi mewnwelediad i chi i'r broses o greu a chynhyrchu Shabŵm. Mae'n cynnig gwybodaeth gefndirol ychwanegol a syniadau am weithgareddau dilynol.

Byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr derbyn copi o unrhyw waith sy'n digwydd yn y dosbarth yn deillio o'r perfformiad.

Mae croeso i chi gysylltu â ni am rhagor o wybodaeth ynglyn â chynhyrchiadau, gweithdai, sesiynau meistr a rhaglenni hyfforddi yr ydym yn eu darparu.



Dilynwch ni ar Facebook/ Follow us on Facebook  
[www.facebook.com/cwmnifranwen](http://www.facebook.com/cwmnifranwen)  
twitter/trydar: @cwmnifranwen

Cwmni'r Frân Wen  
Yr Hen Ysgol Gynradd  
Porthaethwy  
Ynys Môn  
LL59 5HS

Ffôn: (01248) 715048  
Ffacs: (01248) 715225

[www.franwen.com](http://www.franwen.com)  
[post@franwen.com](mailto:post@franwen.com)

